# Gweithdrefn Gwyno Rhyddid Gwybodaeth a Gwybodaeth Amgylcheddol

## Manylion statws y ddogfen

| | |
|---|---|
| Teitl | Rhyddid Gwybodaeth and Environmental Information Complaints Procedure |
| Statws | gymeradwywyd |
| Hanes Fersiwn | 2 |
| Dosbarthiad | Di-ddosbarth |
| Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth | Ie |
| Dyddiad | 9 Mai 2014 |
| Awdur | Cyllid ac Adnoddau |
| Dyddiad Gweithredu | 5 Mehefin 2014 |
| Dyddiad adolygu | 5 Mehefin 2016 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi'r hawl i unigolion a sefydliadau wneud cais ysgrifenedig i gyrchu gwybodaeth a gaiff ei dal gan Brifysgol Cymru (y Brifysgol). Ceir terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith i'r Brifysgol ymateb i gais o'r fath. Os nad yw ymgeisydd yn fodlon â'r ffordd y cafodd ei gais ei drin neu'r ymateb a roddwyd, mae'r Cod Ymarfer dan Adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth yn datgan y dylai'r awdurdod cyhoeddus fod â gweithdrefn gwyno. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Brifysgol archwilio'r penderfyniad gwreiddiol, a gwneud unrhyw newidiadau priodol neu angenrheidiol, cyn i ymgeisydd gael yr hawl i gyflwyno cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth archwilio'r penderfyniad.

## 2. Nod

Nod y weithdrefn hon yw egluro sut y bydd y Brifysgol yn ymateb i fynegiannau ysgrifenedig o anfodlonrwydd â'r modd y cafodd cais ei drin, neu â'r ymateb a gafwyd, dan y Ddeddf Deddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Bydd yn cynnig arweiniad i staff ar:

- Beth i'w wneud pan fyddant yn derbyn mynegiant ysgrifenedig o anfodlonrwydd am ymateb a gafwyd gan y Brifysgol dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- Beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt pan fydd angen cymorth ar y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i gŵyn, er mwyn sicrhau bod cwynion yn cael eu trin yn unol â'r Cod Ymarfer dan Adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Bydd yn cynnig arweiniad i'r ymgeisydd ar:

- y gwasanaeth y gall ddisgwyl ei dderbyn wrth wneud cwyn dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

- sut y bydd y Brifysgol yn ymateb pan ystyrir fod newid i'r penderfyniad gwreiddiol yn briodol neu'n angenrheidiol.

## 3. Cwmpas y Weithdrefn

Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â'r holl geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol os yw'r ymgeisydd wedi mynegi anfodlonrwydd â chanlyniad y cais.

## 4. Arweiniad penodol

### 4.1 Mynegiannau o anfodlonrwydd nad ydynt yn ysgrifenedig

Os cysylltir â staff gyda mynegiant llafar o anfodlonrwydd (dros y ffôn) neu os caiff unrhyw gyfathrebiad mewn perthynas ag ymateb a gafwyd dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, dylid cyfeirio'r ymgeisydd at y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth.

Os yw'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth yn derbyn mynegiant llafar o anfodlonrwydd ac nad oes modd ymdrin â'r anfodlonrwydd hwn drwy ddulliau anffurfiol, bydd gofyn i'r ymgeisydd gofnodi ei gŵyn yn ysgrifenedig a'i anfon at yr Is-Ganghellor. Bydd hyn yn Gŵyn Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol dan y weithdrefn hon.

### 4.2 Mynegiant Ysgrifenedig o Anfodlonrwydd

Dylid cyfeirio'r holl gwynion ysgrifenedig dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn y lle cyntaf at y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth. Fel arfer caiff cydnabyddiaeth ei anfon o fewn 3 diwrnod gwaith yn dilyn derbyn cwyn. Bydd hwn yn cynnwys y dyddiad y cafodd y gŵyn ei derbyn, cyfeirnod unigryw'r cais, crynodeb o'r rhesymau pam y cafodd y gŵyn ei gwneud a'r dyddiad y gall yr ymgeisydd ddisgwyl derbyn ymateb.

### 4.3 Cynnal adolygiadau o gwynion

Bydd ymchwilio i gwynion Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn gyfrifoldeb y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth a chaiff unrhyw ymchwiliad ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer dan Adran 45 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Caiff adolygiadau eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith. Os yw'n debygol y bydd angen rhagor o amser, caiff yr ymgeisydd ei hysbysu gydag amserlen ddiwygiedig. Ni fydd hyn yn fwy na 20 diwrnod gwaith arall.

Caiff yr Is-Ganghellor / Dirprwy Is-Ganghellor:

- alw ar unrhyw aelod o staff i ddarparu sylwadau neu dystiolaeth yn ymwneud â'r cais gwreiddiol am wybodaeth er mwyn cynorthwyo â'r broses benderfynu.

- sefydlu Panel Cwynion Rhyddid Gwybodaeth neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol os ceir materion cymhleth penodol sydd angen eu datrys.

- cysylltu â'r ymgeisydd os bydd angen eglurhad ar unrhyw agwedd o'r modd y cafodd y cais gwreiddiol ei drin.

### 4.4 Cwblhau adolygiad o gŵyn

Ar ôl cwblhau adolygiad bydd yr Is-Ganghellor / Dirprwy Is-Ganghellor yn amlinellu'r canfyddiadau i'r ymgeisydd. Caiff datganiad ei wneud ynglŷn ag a yw'r adolygiad wedi cadarnhau cwyn yr ymgeisydd ai peidio.

Os canfyddir y dylid datgelu rhagor o wybodaeth, y Dirprwy Is-Ganghellor fydd yn gyfrifol am wneud hynny, ar y cyfle cynharaf posibl. Caiff yr ymgeisydd ei hysbysu am yr amserlen o ran rhyddhau gwybodaeth bellach gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth os yw'n briodol.

Os canfyddir fod y penderfyniad gwreiddiol yn gywir caiff yr ymgeisydd ei hysbysu am y penderfyniad hwn, gyda datganiad clir o resymau a/neu gadarnhad o unrhyw resymau a ddatganwyd yn flaenorol.

Ym mhob achos, pan gaiff yr adolygiad ei gwblhau bydd yr ymgeisydd yn cael manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghyd â manylion am yr hawl i apelio.

### 4.5 Cyhoeddi

Bydd yr amser targed ar gyfer cwblhau adolygiadau o gwynion Rhyddid Gwybodaeth ar gael drwy wefan Rhyddid Gwybodaeth y Brifysgol, ynghyd â pherfformiad yn erbyn yr amseroedd targed hynny, a'r nifer o adolygiadau a gadarnheir, a gadarnheir yn rhannol neu na chadarnheir.

**5. Cyfrifoldebau**

Mae'r holl Staff sy'n gyflogedig gan Brifysgol Cymru'n gyfrifol am adnabod cwynion posibl dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac ymdrin â hwy'n unol â'r weithdrefn hon. Mae staff hefyd yn gyfrifol am gynorthwyo'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth i ganfod gwybodaeth o fewn eu cylch gwaith, mewn ymateb i Gais am Adolygiad.

Y Dirprwy Is-Ganghellor sy'n gyfrifol am oruchwylio adolygiadau cwynion dan y Weithdrefn hon ac am adrodd y canfyddiadau rhagarweiniol i'r Is-Ganghellor

Bydd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth yn darparu'r cymorth angenrheidiol i'r Dirprwy Is-Ganghellor neu'r Is-Ganghellor wrth ymgymryd â'r adolygiad hwn.

**6. Cyfnodau Cadw**

Bydd y Brifysgol yn cadw manylion ymgeiswyr am gyfnod o ddwy flynedd y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn galendr y derbyniwyd y cais ynddi.

**7 Diffiniadau**

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth –** Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

**DPA** – Deddf Diogelu Data 1998

**Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** –Mwyaf tebyg o ran cwmpas i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ond gyda rhai gwahaniaethau.

**Cod Ymarfer Adran 45 –** Arweiniad yr Arglwydd Ganghellor dan y Ddeddf (yr Adran Materion Cyfansoddiadol bellach) ar sut i ymdrin yn briodol â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac unrhyw gwynion.

**Cod Ymarfer Adran 46** - Arweiniad yr Arglwydd Ganghellor dan y Ddeddf (yr Adran Materion Cyfansoddiadol bellach) ar sut y dylai sefydliadau reoli eu cofnodion er mwyn gwella cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

**Cais Hawl Mynediad/Cais Rhyddid Gwybodaeth** – Cais ysgrifenedig am fynediad at wybodaeth rydym ni'n ei dal. Rhaid i'r cais gynnwys enw a chyfeiriad gohebiaeth.

**Cynllun Cyhoeddi** – Fframwaith statudol ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth yn rhagweithiol yn unol â 'dosbarthiadau' a gytunwyd. Mae hwn ar gael drwy ryngrwyd Prifysgol Cymru.

**Eithriadau** – Adrannau yn y Ddeddf sy'n tynnu'r hawl i fynediad neu gael gwybod a oes gwybodaeth yn cael ei dal.

**Prawf Rhagfarn/Niwed** – Er mwyn i rai eithriadau fod yn weithredol rhaid i ni ddangos y byddai rhyddhau'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol.

**Prawf Budd y Cyhoedd** – Prawf cydbwyso yn seiliedig ar a fyddai budd cyhoeddus uwch yn deillio o ryddhau neu beidio â rhyddhau. Ni ddylid drysu rhwng prawf budd y cyhoedd a'r hyn sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd.

8. **Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg**

Mae'r Polisi hwn yn anelu at gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y sefydliad o ran ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, ei effaith ar ddelwedd gyhoeddus y sefydliad a gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg.

**9. Arweiniad Pellach**

Mae Cod Ymarfer yr Arglwydd Ganghellor dan Adran 45 y Ddeddf yn amlinellu ymarfer da o ran sut y dylid ymdrin â chwynion Rhyddid Gwybodaeth. Mae hwn i'w weld yma: http://www.justice.gov.uk/guidance/freedom-of-information.htm

Gellir cael ymholiadau am geisiadau am arweiniad ar unrhyw agwedd o'r polisi hwn gan Reolwr Cydymffurfiaeth ac Ysgrifenyddiaeth y Brifysgol: compliance@cymru.ac.uk